# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Newidiadau Arfaethedig i Ystadegau Llywodraeth Cymru |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | Melanie Brown, Prosiectau Ystadegol Blaenoriaeth Uchel<br>Vanessa Allis, Ystadegau Economi a Thrafnidiaeth<br>Cerys Ponting, Ystadegau masnach<br>Lee Thomas, Casglu Data |
| **Adran:** | CSI – Gwasanaethau ystadegol |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-Swyddog Cyfrifol (enw):** | Stephanie Howarth |
| **Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog Cyfrifol:** | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg sy'n gyfrifol am faterion ystadegau swyddogol. Fodd bynnag, cynhyrchir ystadegau swyddogol yn annibynnol o dan arweinyddiaeth y Prif Ystadegydd. |
| **Dyddiad Cychwyn:** | Hydref 2025 |

## PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gam pwysig wrth drawsnewid ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae'n ymateb i'r galw cynyddol am ddata amserol, o ansawdd uchel, mewn hinsawdd o bwysau ariannol a'r angen i foderneiddio sut rydym yn gweithio. Nod y newidiadau arfaethedig - gan gynnwys stopio, lleihau neu ailfformatio rhai allbynnau - yw creu lle ar gyfer arloesi, gwella cynaliadwyedd, a sicrhau bod ein hystadegau yn parhau i ddarparu gwerth. Mae'r ymateb hwn yn ystyried y cynigion drwy ystyried y pum ffordd o weithio a'r meysydd effaith ychwanegol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Hirdymor**

Mae'r cynigion yn cael eu llywio gan dueddiadau hirdymor mewn trawsnewid digidol, effeithlonrwydd sector cyhoeddus, a'r galw cynyddol am ddata. Mae symud i offer ffynhonnell agored a phiblinellau dadansoddol atgynhyrchadwy yn cyd-fynd ag arferion gorau byd-eang ac yn cefnogi system ystadegau fwy gwydn ac addasadwy. Mae hefyd yn adlewyrchu'r angen i ddiogelu ein seilwaith i'r dyfodol cyn datblygiadau mawr fel diwygio'r Senedd a llywodraeth newydd yn 2026.

Trwy symleiddio allbynnau a chanolbwyntio ar y rhai sy'n cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi fwyaf, gallwn ryddhau gallu i ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a buddsoddi mewn sgiliau a thechnolegau newydd. Mae'r cynigion yn lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â llifoedd gwaith sydd wedi dyddio a dibyniaeth ar feddalwedd, tra'n hwyluso cyfleoedd i wella ansawdd, prydlondeb a pherthnasedd i ddefnyddwyr ystadegau.

**Atal**

Mae'r cynigion yn cefnogi atal trwy alluogi defnydd mwy strategol o adnoddau dadansoddol. Trwy flaenoriaethu allbynnau sy'n llywio polisi (gan gynnwys ar feysydd fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd, a chynaliadwyedd amgylcheddol), gallwn gefnogi ymdrechion i dorri cylchoedd negyddol a hyrwyddo llesiant hirdymor. Trwy greu gallu i fynd i'r afael â gofynion newydd, gallwn gefnogi meysydd polisi sy'n dod i'r amlwg gyda'r dystiolaeth sydd ei hangen i gymryd dull ataliol.

Er bod y cynigion yn ymateb i symptom (adnoddau cyfyngedig) maent hefyd yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol, megis aneffeithlonrwydd mewn cynhyrchu a rhyngweithredededd cyfyngedig. Mae'r newid i offer ffynhonnell agored a dulliau atgynhyrchadwy yn helpu i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol hyn, gan osod y sylfaen ar gyfer dadansoddiad mwy integredig ac effeithiol.

Mae ymdrechion i leihau effeithiau negyddol yn cynnwys lleihau dyblygu, byrhau cynnwys, a mabwysiadu fformatau mwy cynaliadwy. Gall y newidiadau hyn leihau'r defnydd o adnoddau, tra hefyd yn annog allbynnau mwy hygyrch, gyda mwy o ffocws. Bydd rheoli newid yn cael ei ystyried i osgoi canlyniadau anfwriadol, megis llai o hygyrchedd neu golli ymddiriedaeth ymhlith defnyddwyr. Er enghraifft, byddwn yn parhau i geisio adborth gan ddefnyddwyr trwy fforymau a

sianeli ymgysylltu presennol, ac yn defnyddio'r mewnwelediad hwn i lywio addasiadau pellach lle bo angen.

**Integreiddio**

Mae'r cynigion yn cynnig potensial ar gyfer integreiddio ar draws agendâu polisi cyhoeddus. Trwy sicrhau bod yr allbynnau a'r Rhaglen Lywodraethu, nodau llesiant, a gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyson â'i gilydd, gallwn sicrhau manteision lluosog. Er enghraifft, gweithio'n fwy cydweithredol ar draws y system ystadegol yng Nghymru a'r DU, rhannu dulliau, osgoi dyblygu, a sicrhau bod ein dadansoddiad yn cyd-fynd.

**Cydweithredu**

Mae cydweithredu wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r cynigion. Mae timau dadansoddi wedi darparu adborth ar allbynnau cyfredol a newidiadau posibl, yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru drwy fforymau sefydledig. Mae'r mewnbwn hwn wedi helpu i lunio blaenoriaethau a nodi meysydd i'w gwella. Wrth edrych ymlaen, mae'r cynigion yn creu capasiti a chwmpas ar gyfer cydweithio pellach wrth i ni geisio bodloni gofynion newydd.

**Cyfranogiad**

Mae cyfranogiad yn rhan allweddol o'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn cydnabod bod gan bobl yr effeithir arnynt gan y cynigion, gan gynnwys llunwyr polisi, ymchwilwyr, awdurdodau lleol, a'r cyhoedd, fewnwelediadau gwerthfawr i'r hyn sydd fwyaf pwysig. Bydd eu hadborth yn ein helpu i ddeall effaith y newidiadau arfaethedig hyn a sicrhau bod ein hystadegau yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr ledled Cymru.

Yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, rydym wedi ymrwymo i gynnwys defnyddwyr wrth lunio ein cynlluniau: gan dynnu ar adborth o fforymau a sianeli ymgysylltu presennol i sicrhau bod ein cynigion yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau defnyddwyr.

**Effaith**

Mae'r cynigion yn cynnig llwybr i fwy o effeithlonrwydd, cynaliadwyedd ac addasadwyedd. Maent yn cefnogi datblygu system ystadegau fodern, wydn sy'n gallu ymateb yn hyblyg i ofynion yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae yna risgiau hefyd, gan gynnwys colli allbynnau hirsefydlog posibl ac aflonyddu ar ddefnyddwyr sy'n dibynnu ar fformatau neu amleddau penodol.

Er bod data defnydd ac adborth mewnol wedi llywio'r cynigion, mae bylchau yn ein dealltwriaeth, yn enwedig ynghylch allbynnau llai gweladwy a grwpiau defnyddwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i archwilio'r dadleuon hyn yn ehangach a llunio dull cytbwys, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Costau ac Arbedion**

Mae'r cynigion yn cynnwys buddsoddiad ymlaen llaw mewn amser staff, hyfforddiant, a rheoli newid. Fodd bynnag, disgwylir iddynt gyflawni arbedion hirdymor trwy lai o drwyddedu meddalwedd, prosesau cynhyrchu mwy effeithlon, a mwy o ddefnydd o awtomeiddio. Bydd hyn yn ein galluogi i gwrdd â'r galwadau newydd a chynyddol am ystadegau.

**Mecanwaith**

Nid oes unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn cael eu cynnig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd unrhyw newidiadau i allbynnau statudol yn cael eu hadolygu'n ofalus i sicrhau cydymffurfiaeth a thryloywder. Mae'r ymgynghoriad ei hun yn rhan o raglen drawsnewid ehangach, gyda'r nod o adeiladu system ystadegau fwy effeithiol ac addas i'r dyfodol ar gyfer Cymru erbyn 2026.

Mae'r egwyddorion o'r Cod Ymarfer statudol ar gyfer Ystadegau yn cael eu cymhwyso drwy gydol yr ymgynghoriad hwn.

## CASGLIAD

**Sut y mae pobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig (defnyddwyr yr allbynnau ystadegol yn bennaf) wedi cael eu cynnwys trwy ymgysylltu ffurfiol a mecanweithiau adborth. Mae eu hadborth trwy ymgysylltu'n rheolaidd â defnyddwyr ystadegol wedi siapio'r cynigion, a bydd yr ymgynghoriad wedi'i anelu'n uniongyrchol at y rhain. Mae hyn yn cynnwys timau polisi mewnol, dadansoddwyr, a defnyddwyr allanol sy'n cyrchu'r data a'u cymhwyso. Er na ddisgwylir i'r cynnig effeithio'n uniongyrchol ar blant, pobl â nodweddion gwarchodedig, siaradwyr Cymraeg, na grwpiau penodol eraill, bydd y broses ymgynghori yn parhau i fod yn agored i bawb, gan sicrhau cyfranogiad cynhwysol a'r cyfle i gael adborth gan ystod eang o randdeiliaid.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Effaith fwyaf arwyddocaol y cynnig yw y gall rhywfaint o ddata penodol neu fanwl ddod yn anoddach i'w lleoli. Fodd bynnag, bydd yr wybodaeth graidd yn parhau i fod ar gael trwy ffynonellau eraill (neu yn llai aml), a bydd defnyddwyr yn cael eu cefnogi trwy gyfathrebu ac arweiniad clir. Disgwylir i'r newid hwn gael effaith fach iawn ar unigolion, cymunedau a sectorau. Yr effaith gadarnhaol yw gwell amseroldeb, ansawdd a chynaliadwyedd ystadegau blaenoriaeth, a mwy o allu a hyblygrwydd i fynd i'r afael â gofynion ystadegol newydd yn y dyfodol.

**Yn dilyn yr effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu yn osgoi, yn lleihau neu'n lleddfu unrhyw effeithiau negyddol?**

Er mwyn gwneud y mwyaf o gyfraniadau at amcanion llesiant, mae'r cynnig yn cefnogi defnydd cynaliadwy a chymesur o adnoddau dadansoddol, gan alluogi timau i ganolbwyntio ar allbynnau

sy'n llywio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus yn well.
Bydd effeithiau negyddol (megis llai o weledEdd i ddata penodol) yn cael eu lliniaru gan:

- Cyfathrebu newidiadau'n glir i ddefnyddwyr
- Cyflwyno diweddariadau mewn fforymau presennol
- Ymateb i adborth i'r ymgynghoriad
- Sicrhau bod ffynonellau amgen yn parhau i fod yn hygyrch

Nid oes angen camau pellach ar hyn o bryd i liniaru effeithiau, ond bydd hyn yn cael ei adolygu yn dilyn yr ymgynghoriad.

**Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phryd y bydd yn dod i ben?**
Bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro drwy:

- Adborth a gafwyd yn ystod ac ar ôl yr ymgynghoriad
- Ymgysylltu parhaus â defnyddwyr trwy fforymau sefydledig
- Adolygiad mewnol o flaenoriaethau dadansoddol a dyraniad adnoddau

Bydd gwerthusiad yn canolbwyntio ar a yw defnyddwyr yn gallu cael mynediad at y data sydd eu hangen arnynt ac a yw'r newidiadau wedi galluogi gwaith dadansoddol mwy effeithlon ac effeithiol. Bydd addasiadau yn cael eu gwneud os nodir materion sylweddol.

## DATGANIAD

Rwy'n fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi cael eu hasesu a’u cofnodi’n ddigonol.

Enw’r Uwch-swyddog Cyfrifol / y Dirprwy Gyfarwyddwr: Stephanie Howarth

Adran: Y Gwasanaeth Ystadegau

Dyddiad:  15/10/2025